

❖ PRYSURDEB, PERYGLON A PHWRPAS GŴYL Y NADOLIG

(Sul cyntaf yr Adfent)

Mae heddiw yn Sul arbennig – Sul cyntaf yr Adfent, a golyga hyn fod Gŵyl dathlu geni ein Gwardwr Iesu Grist yn ein hymyl unwaith eto. Wrth gwrs, mae tymor y Nadolig wedi dechrau ers wythnosau yn y siopau, ac mae trefi a dinasoedd Cymru yn mynd yn brysurach bob dydd. Ond, yng nghalendr yr Eglwys Gristnogol, heddiw yw Sul cyntaf tymor y Nadolig. Diben yr ‘Adfent’ yw rhoi cyfle i bawb ohonom baratoi ein hunain yn feddyliol ac yn ysbrydol ar gyfer dydd pen blwydd geni ein Harglwydd Iesu Grist.

Llefarydd (dyn):

Gŵyl i’w dathlu mewn llawenydd yw’r Nadolig, ond cyn y gallwn ddathlu, mae’n rhaid paratoi, ac eleni eto, byddwn yn paratoi anrhegion a bwyd o bob math, a hefyd, gobeithio, yn ein paratoi’n hunain yn feddyliol ac yn ysbrydol. Mae nifer fawr o bobl yn paratoi drwy ymroi i brysurdeb masnachol yr ŵyl, ond y mae i’r math hwn o brysurdeb ei beryglon, a’r perygl mwyaf y gallwn syrthio iddo yw colli golwg ar wir ystyr yr ŵyl. Mae gan Dr Pennar Davies gerdd ddychanol am ein hoffter ni, Gymry, o ganu emynau:

‘Mae’n gas gennym feddwl am gyflwr y byd;
Mae’n well gennym ganu a chanu o hyd.’

Wel, onid yw’r addasiad hwn hefyd yn wir?

‘Mae’n gas gennym feddwl am gyflwr y byd,
Mae’n well gennym siopa a siopa o hyd,
Cans dyna yw ’Dolig – cael prynu’n ddi-stop
Ac yfed a bwyta nes bod yn llawn dop.
Mae’n gas gennym feddwl am gyflwr y byd,
Mae’n well gennym siopa a siopa o hyd!’

Dywedir yn Llyfr y Pregethwr fod amser i bob peth, gan gynnwys siopa! Yn sicr, mae i siopa ei apêl, a phwy ydym ni, ddyinion, i ddadlau yn wahanol! Yn wir, pe byddai ein teuluoedd yn dibynnu arnom ni, ddyinion, i siopa, byddai’r Nadolig yn llwm iawn, ond rwy’n siŵr y cytuna pawb ohonom fod mwy i’r Nadolig na rhuthro o un siop i’r llall a gwario’n ffôl. Os hyn yn unig y mae’r ŵyl yn ei olygu inni, yna, mae’n hen bryd inni holi ein hunain. Mae mor hawdd i’n prysurdeb droi’n brysurdeb paganaidd a llowcio hunanol. Roedd hi’n gyfnod prysur ym Methlem hefyd pan anwyd Iesu Grist, pan gyrchai pobl o bob rhan o’r wlad i gofrestru. Yn eu mysg, yr oedd Joseff a Mair, fel y clywn yn adroddiad Luc.

Darlleniad: Luc 2:1–7**Darlleniad: Ioan 1:1–12**

Fe symudwn ymlaen o brysurdeb yr ŵyl i **berylgon** yr ŵyl. Mae Ioan yn ein hatgoffa o’r perygl mawr:

‘A dyma’r condemniad, i’r goleuni ddod i’r byd ond i ddyinion garu’r tywyllwch yn hytrach na’r goleuni.’

‘Daeth i’w gynefin ei hun, ac ni dderbyniodd ei bobl ei hun mohono.’

Mae’n hawdd iawn i ni heddiw feirniadu’r Iddewon gynt am wrthod Iesu Grist. Y gwir yw bod Iesu yn cael ei wrthod ymhob oes. Mae’n bosibl i ni hefyd wrthod Iesu mewn llawer o ffyrdd. Fe allwn ei wrthod drwy ei anwybyddu, neu ei gymryd yn ysgafn, neu ymateb iddo ambell dro, neu ei gasáu, hyd yn oed, fel y gwnaeth y brenin drwg hwnnw Herod. Gadewch inni wrando ar yr hanes.

Darlleniad: Mathew 2:16–18

Mae’r adnodau a glywsom yn tanlinellu’r ffaith nad i fyd o dlysnï tangnefeddus y ganwyd Iesu Grist, ond

i fyd creulon a didostur. Brenin creulon a didostur oedd Herod, a thrwy ei weithredoedd dieflig, fe welwyd y groes yn bwrw ei chysgod ar Iesu, ac yntau ond yn faban bach yn ei grud. Onid yw'n arwyddocaol fod yr Eglwys Gristnogol wedi neilltuo diwrnod ar ôl y Nadolig i gofio marwolaeth Steffan, i'n hatgoffa o elyniaeth y byd tuag at Iesu a'i ddilynwyr? Mae gan Eirian Davies gerdd am y geni ym Methlehem. Ynddi, ar ôl diolch fod Iesu wedi ei eni yn nyddiau Herod frenin, mae'r bardd yn gofyn cwestiwn rhyfedd:

'Beth pe byddai wedi disgyn wrth ein drws
Adeg teyrnasiad Elisabeth yr ail?'

Dyna i chi gwestiwn crafog sy'n awgrymu na fyddai ein croeso ni ddim blewyn gwell. Yn wir, mae'r bardd cystal â dweud ei bod yn well fod Iesu wedi ei eni yn nyddiau Herod, y brenin creulon hwnnw, nag yn ein dyddiau ni.

'Petai'r Iesu wedi ei eni yn ein hoes ni
Byddai Mair wedi esgor
Ymhlith gwehilion dinasoedd mawr ein daear.
Ac yn lle nythu'n gynnes mewn preseb a gwair,
Fe gâi'r baban orwedd mewn bocs carbod.'

Mae ambell fardd yn euog o feddalu neges y Nadolig, a'i gwneud yn ddim amgen na stori dylwyth teg, ond nid yw'r bardd Eirian Davies yn gwneud hynny. Yn hytrach, mae'n ein hatgoffa o wir gyflwr ein cymdeithas a'n byd heddiw. Yn ein carol nesaf, mae'r emynydd yn ein hatgoffa mai i fyd creulon iawn y ganwyd y baban Iesu:

'Cwsg cyn daw Herod â'i gledd ar ei glun,
cwsg, fe gei ddigon o fod ar ddi-hun,
cwsg cyn daw'r groes i'th ran.'

Rydym eisoes wedi sôn am brysurdeb a pheryglon y Nadolig. Symudwn ymlaen i gloi ein myfyrdod wrth sôn am **bwrpas** y Nadolig. Dro'n ôl, fe lanswyd ffilm animeiddio arbennig, sef *Gŵr y Gwyrthiau*. Yn y ffilm, fe gyflwynir nifer o ddarluniau o Iesu yn cyflawni gwyrthiau drwy iacháu'r cleifion a bwydo'r newynog, ac ynddynt, daeth un peth yn amlwg iawn, sef mai'r wyrth fwyaf yw person Iesu ei hun. Gadewch inni wrando ar ddechrau llythyr Ioan.

Darlleniad: 1 Ioan 1:1–4

Beth yw pwrpas y Nadolig? Fe allwn gynnig nifer o atebion, megis ymlacio'n braf gyda'r teulu, codi'n hwyr a darllen llyfr yn hamddenol, gwahodd y teulu atom a sgwrsio heb orfod edrych ar y cloc, a chyda'r nos, mynd allan gyda ffrindiau am bryd o fwyd a diod bach o win, neu ymuno â dathliadau amrywiol gymdeithasau. Fe allwn ddathlu'r Nadolig hefyd drwy ymweld â chyfeillion, ac yn arbennig y rhai sy'n unig yn eu cartref neu'n wael yn yr ysbty. Y mae llawer o'r awgrymiadau hyn yn ardderchog, ond yr hyn sy'n rhoi gwir bwrpas i'r Nadolig yw cyflawni'r cyfan yn ysbryd ac yn enw Iesu Grist, a'n bod yn rhoi y lle canol iddo yn ein bywyd o ddydd i ddydd, y lle canol iddo wrth fynd allan gyda'n ffrindiau, y lle canol iddo wrth ymweld â chyfeillion a chymdogion, y lle canol iddo wrth estyn cymorth i'r newynog, a'r lle canol iddo yn ein haddoliad.

Mae'r gair NADOLIG yn anghyflawn heb y ddwy lythyren olaf, sef 'I' a 'G' – Iesu Grist. Iesu Grist sy'n rhoi'r ystyr llawn i'r Nadolig, ac ef yw gwrthrych ein ffydd a thestun ein cân. Fel y dywedodd D. Hughes Jones:

'Rhodder gogoniant fyth i'r Tad
am eni'r Ceidwad cun,
seinier ei neges drwy bob gwlad,

“Ewyllys da i ddyn.”

Gorffennwn ein myfyrdod ym Methlehem Jwdea drwy ddarllen detholiad o adnodau:

‘Daethant i’r tŷ a gweld y plentyn gyda Mair ei fam; syrthiasant i lawr a’i addoli, ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr.’

‘Dychwelodd y bugeiliaid gan ogoneddu a moli Duw am yr holl bethau a glywsant ac a welsant, yn union fel y llefarwyd wrthynt.’

‘Cymerodd Simeon ef i’w freichiau a bendithiodd Dduw gan ddweud: “Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd, O Arglwydd, mewn tangnefedd yn unol â’th air.”’

‘A’r awr honno, safodd hi [Anna’r broffwydes] gerllaw a moli Duw, a llefaru am y plentyn hwn wrth bawb oedd yn disgwyl rhyddhad Jerwsalem.’

‘Ac meddai Mair, “Y mae fy enaid yn mawrygu yr Arglwydd, a gorfoleddodd fy ysbryd yn Nuw, fy Ngwaredwr.”’

Mae ugain canrif wedi mynd heibio ers geni Mab Duw yn faban bach, ac ar hyd yr oesau, mae Cristnogion wedi gorfoleddu yn y digwyddiad rhyfedd hwn. Gadewch i ninnau eto eleni ymuno yn y moliant a’r llawenydd,

‘Dewch, addolwn, cydaddolwn
Faban Mair sy’n wir Fab Duw,
Dewch, addolwn, cydaddolwn
Iesu, Ceidwad dynol ryw.’ Amen.

John Lewis Jones